



Cyfleoedd ariannu



Mai 2023

Bwletin ar ddewis o'r cyfleoedd ariannu presennol

Mae Tîm Ariannu'r Economi yn darparu gwasanaeth datblygu a chynghori prosiectau ar gyllid allanol. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio a nodi cyfleoedd i gynnig am arian a chefnogi ceisiadau prosiect.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn unrhyw un o'r cyfleoedd a gyhoeddwyd yma, byddwn yn falch o ddarparu mwy o wybodaeth. Lle bo modd, gallwn hefyd roi cyngor ar baratoi ceisiadau a helpu i nodi partneriaid prosiect posibl, os oes angen. Gallwn fanteisio ar adnoddau pwrpasol fel GRANTfinder i'n helpu i ddod o hyd i ffynonellau cyllid posibl.

Cysylltwch â Thîm Ariannu'r Economi: funding@powys.gov.uk

Ewch i wefan y Tîm Adfywio yn <http://www.tyfuymhowys.com>

Dangoswch eich bod yn ein hoffi ni ar Facebook  <https://www.facebook.com/GrowInPowys>

Dilynwch ni ar Twitter  <https://twitter.com/growinpowys>

Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol - Cymru

Manylion: Ers mis Ebrill 2020, mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi bod yn blaenoriaethu prosiectau ariannu a sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau yn ystod pandemig COVID-19. Bydd y Gronfa yn blaenoriaethu ceisiadau gan:

- Sefydliadau sy'n cefnogi pobl sydd â risg uchel yn sgil COVID-19
- Sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau sydd fwyaf tebygol o wynebu cynnydd mewn galw a heriau o ganlyniad uniongyrchol i fesurau i atal canlyniad COVID-19
- Sefydliadau sy'n cysylltu cymunedau a'u cefnogi i gydweithio i ymateb i COVID-19

Mae grantiau o rhwng £300 a £10,000 ar gael.

Pwy sy'n gallu gwneud cais: Croesewir ceisiadau gan:

- Mudiadau gwirfoddol a chymunedol, gan gynnwys:
 - Elusennau cofrestredig
 - Grwpiau a chlybiau â chyfansoddiad
 - Cwmnïau nid-er-elw a Chwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Ysgolion
- Cyrff statudol (gan gynnwys cyngorau tref, plwyf, a chymuned).

Ar gyfer beth mae'r cais:

- Costau hyfforddi
- Treuliau gwirfoddoli
- Costau staff
- Prosiectau cyfalaf bach
- Cludiant
- Digwyddiadau un-tro

- Cyfarpar
- Costau cyfleustodau/rhedeg

Dyddiad cau: Dim dyddiad cau

Gwybodaeth

Bellach:

<https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/funding/programmes/national-lottery-awards-for-all-wales#section-4>

Cronfa Cymru Actif

Manylion: Mae'r gronfa wedi'i bwriadu ar gyfer clybiau a mudiadau cymunedol sy'n helpu pobl i fod yn weithgar a chymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru.

Nod y gronfa yw cefnogi prosiectau sy'n ceisio:

- Lleihau anghydraddoldeb.
- Creu cynaliadwyedd tymor hir.
- Cyflwyno ffyrdd newydd neu wahanol o weithredu.
- Mae grantiau o rhwng £300 a £50,000 ar gael.

Pwy sy'n gallu gwneud cais: Bydd ceisiadau'n cael eu derbyn gan glybiau chwaraeon nid-er-elw a sefydliadau sy'n darparu chwaraeon cymunedol a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.

Ar gyfer beth mae'r cais: Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i dalu cost pryniannau a gweithgareddau, gan gynnwys:

- Uwchsgilio gwirfoddolwyr lle mae gan glybiau fylchau o ran sgiliau neu brofiad.
- Prynu offer sy'n caniatáu i fwy o bobl gymryd rhan mewn chwaraeon.
- Datblygu ffyrdd newydd neu wahanol o gyflawni gweithgarwch corfforol.
- Defnyddio technoleg i ymgysylltu â mwy o bobl.
- Cyrraedd pobl sy'n cael eu tangynrychioli mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar hyn o bryd.

Gwybodaeth Bellach: <https://www.chwaraeon.cymru/grantiau-a-chyllid/cronfacymruactif/>

Rownd Newydd o Grantiau Mawr ar gyfer Atgyweirio Eglwysi

Manylion: Arian ar gyfer atgyweirio strwythurol a gwaith cynnal a chadw i addoldai. Mae'r Ymddiriedolaeth Eglwysi Cenedlaethol bellach yn derbyn ceisiadau ar gyfer rownd nesaf ei rhaglen Grantiau Mawr, ar gyfer prosiectau sy'n cyd-fynd â phrif ganlyniadau ei strategaeth newydd:

- Cadw treftadaeth.
- Hyrwyddo cynaliadwyedd.
- Ysbrydoli cefnogaeth.

Gall addoldai o unrhyw enwad Cristnogol ac unrhyw oed wneud cais. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan addoldai Cristnogol rhestredig a rhai nad ydynt yn rhestredig, ledled y Deyrnas Unedig.

Mae grantiau o £10,000 i £50,000 ar gael, er bod grantiau dros £40,000 yn gyfyngedig dros ben.

Mae'r cyllid ar gyfer prosiectau atgyweirio strwythurol brys a hanfodol (sy'n destun costiad o fwy na £80,000) i adeiladau a gafodd eu hadeiladu'n wreiddiol fel eglwysi, neu i osod cegin a thoiledau (sy'n destun costiad o fwy na £30,000).

Pwy sy'n gallu gwneud cais: Gall addoldai o unrhyw enwad Cristnogol ac o unrhyw oed wneud cais.

Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan addoldai Cristnogol rhestredig a rhai nad ydynt yn rhestredig, ledled y Deyrnas Unedig.

Anogir ceisiadau gan ardaloedd blaenoriaeth yr Ymddiriedolaeth, sef: Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru, er nad yw'n eithrio ceisiadau gan eglwysi mewn ardaloedd eraill.

Ar gyfer beth mae'r cais: Mae'r cyllid ar gyfer prosiectau atgyweirio strwythurol brys a hanfodol (sy'n destun costiad o fwy na £80,000) i adeiladau a gafodd eu hadeiladu'n wreiddiol fel eglwysi, neu i osod cegin a thoiledau (sy'n destun costiad o fwy na £30,000).

Bydd y Gronfa yn blaenoriaethu:

- Gwaith ar adeiladau sydd o bwys pensaernïol a hanesyddol
- Ceisiadau gan ranbarthau y nodwyd eu bod yn ardaloedd blaenoriaeth, sef: Gogledd Iwerddon, Cymru a Gogledd-ddwyrain Lloegr
- Prosiectau atgyweirio strwythurol brys (sydd wedi'i nodi gan QIR neu arolwg diweddar o'r adeilad fel gwaith y mae angen ei gyflawni o fewn dwy flynedd), gan ganolbwyntio ar adeiladau sydd mewn perygl
- Gosod ceginau a thoiledau lle gellir dangos angen cryf
- Addoldai sy'n gallu dangos system gynnal a chadw addas ar waith i ddiogelu'r buddsoddiad
- Mannau addoli gydag oriau agor rheolaidd
- Addoldai sy'n gallu dangos ymgysylltiad cymunedol cryf a chynlluniau cadarn ar gyfer hyfywedd economaidd.

Dyddiad cau: 4 Gorffennaf 2023

Gwybodaeth Bellach: <https://www.nationalchurchestrust.org/get-support/grants/large-grants>

Cyfoeth Naturiol Cymru – Grant Cyflenwi Adfer Mawndiroedd

Manylion: Bwriad y cyllid yw cefnogi'r gwaith o gyflwyno prosiectau sydd wedi'u cynllunio i adfer mawndiroedd ar hyd a lled Cymru.

Yn y pen draw, bydd prosiectau sy'n cael eu hariannu gan grantiau yn cyfrannu tuag at y targed presennol o weithgarwch i adfer 600ha yng Nghymru bob blwyddyn.

Pwy sy'n gallu gwneud cais: Bydd ceisiadau'n cael eu derbyn gan sefydliadau ac unigolion sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Elusennau cofrestredig.
- Sefydliadau sector cyhoeddus.
- Prifysgolion, sefydliadau addysg uwch eraill a sefydliadau ymchwil.

- Sefydliadau trydydd sector.
- Sefydliadau yn y sector preifat.
- Unigolion preifat.

Bydd angen i bob prosiect fynd i'r afael ag un neu fwy o flaenoriaethau Rhaglen Genedlaethol Gweithredu Mawndiroedd (NPAP):

- Erydiad mawndiroedd.
- Draeniad mawndiroedd.
- Rheolaeth gynaliadwy ar fawn sydd wedi ffurfio blanced dros y dirwedd.
- Rheolaeth gynaliadwy ar fawn iseldir.
- Adfer mawndiroedd wedi'u coedwigo.
- Adfer graddol ein mawndiroedd â'r allyriad carbon uchaf.

Hefyd mae'n rhaid i'r mawndir fod yng Nghymru - ar gyfer unrhyw gynigion trawsffiniol, bydd CNC yn ystyried yr elfen Gymreig yn unig.

Ar gyfer beth mae'r cais: Gellir defnyddio'r arian i gefnogi costau gan gynnwys:

- Costau swyddi prosiect uniongyrchol, offer, contractwyr ac ymgynghorwyr, a ffioedd proffesiynol untro sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chostau'r prosiect.
- Gorbenion – defnyddir cyfradd wastad o 15% o gostau staff prosiect uniongyrchol ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, ond bydd adferiad costau llawn yn cael ei dderbyn, cyn belled ag y bydd y costau a thystiolaeth o'r costau wedi'u dangos yn llawn.
- Costau staff sy'n ymwneud â darparu gwaith adfer cyfalaf.

Gall y ceisiadau gynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Gweithgareddau adfer sy'n mynd i'r afael ag un neu ragor o themâu blaenoriaeth NPAP.
- Mynediad at welliannau a fydd yn galluogi mynediad peiriannau i'r safle hyd at uchafswm gwerth 15% o gyfanswm cost y prosiect.

Dyddiad cau: 1 Gorffennaf 2023

Gwybodaeth Bellach: <https://naturalresources.wales/about-us/grants-and-funding/current-grant-funding-opportunities/?lang=cy>

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol - Cronfa Gweithredu Hinsawdd: Ynni a Newid yn yr Hinsawdd

Manylion: Bwriad arian yw cefnogi prosiectau sy'n:

- Annog cymunedau i ddefnyddio ynni mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.
- Dod â chymunedau at ei gilydd fel y gallant archwilio ffyrdd o hyrwyddo effeithlonrwydd ynni.
- Galluogi cymunedau i ddeall ac ymgysylltu â chyfleoedd i gynhyrchu ynni glân, sydd ddim yn defnyddio tanwyddau ffosil.

Pwy sy'n gallu gwneud cais: Bydd ceisiadau'n cael eu derbyn gan naill ai:

- Partneriaethau ar sail lleoedd.

- Partneriaethau ledled y DU.
- Mudiadau gwirfoddol neu gymunedol sengl.

Rhaid i'r sefydliad fod yn un o'r canlynol:

- Grŵp neu glwb â chyfansoddiad.
- Sefydliad gwirfoddol neu gymunedol.
- Elusen gofrestredig.
- Sefydliad corfforedig elusennol (SCIO/CIO).
- Cwmni buddiannau cymunedol (CIC).
- Cwmni nid-er-elw cyfyngedig drwy warant.
- ysgol, coleg, prifysgol (cyn belled ag y bydd eich prosiect o fudd i'r cymunedau lleol ehangach ac yn eu cynnwys)
- Corff statudol (gan gynnwys cynghorau, tref, plwyf a chymuned)
- Cymdeithas budd cymunedol.

Ar gyfer beth mae'r cais: Mae gofyn i brosiectau wneud o leiaf un o'r canlynol:

- Annog pobl a chymunedau i ddefnyddio ynni mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.
- Dod â chymunedau at ei gilydd fel er mwyn iddynt allu archwilio ffyrdd o hyrwyddo effeithlonrwydd ynni.
- Galluogi cymunedau i ddeall cyfleoedd i gynhyrchu ynni glân, sydd ddim yn defnyddio tanwyddau ffosil ac i ymgysylltu â'r rhain

Mae ffocws penodol ar weithgareddau sy'n ymgysylltu â chymunedau er mwyn:

- Addysgu, ysbrydoli, a dechrau gweithredu ar fater ynni ar sail gymunedol gan arwain at ostyngiad mewn allyriadau carbon dros y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys prosiectau arddangos y gall pobl ymweld â nhw yn eu cymuned.
- Meithrin sgiliau, offer, ac adnoddau i alluogi gweithredu lleol, megis, hyfforddi hyrwyddwr ynni cymunedol, archwilio atebion cost-effeithiol hawdd i'w defnyddio megis atalwyr drafftiau neu ddefnyddio bylbiau LED.
- Rhannu sgiliau gyda phobl yn y gymuned er mwyn iddynt allu cymryd rhan mewn prosiectau lle gallant gynhyrchu eu hegri eu hunain trwy ynni adnewyddadwy. Ni fyddwn yn ariannu prynu paneli solar, tyrbinau gwynt na generaduron eraill ynni adnewyddadwy. Fodd bynnag, gallwn ariannu grwpiau i ymgysylltu â chymunedau a'u helpu i feithrin eu dealltwriaeth am brosiectau ynni cymunedol.
- Defnyddio data i annog gweithredu a newid ymddygiad cadarnhaol.

Gellir defnyddio grantiau i dalu am:

- Costau staff.
- Treuliau gwirfoddolwyr.
- Costau cyffredinol y prosiect.
- Gweithgareddau ymgysylltu.
- Dysgu a gwerthuso.
- Cyfleustodau neu gostau rhedeg.
- Costau datblygu a rheoli sefydliadol.
- Rhai costau cyfalaf - gallai hyn fod ar gyfer prynu offer neu brynu, prydlesu, adnewyddu neu ddatblygu tir ac adeiladau, neu waith arall sy'n gysylltiedig ag adeiladu.

Y disgwyl yw y bydd y rhan fwyaf o arian yn mynd tuag at gostau refeniw.

Dyddiad cau: Mae disgwyl i'r gronfa aros ar agor tan o leiaf Rhagfyr 2023, gan ddibynnu ar faint o ddiddordeb a welir.

Gwybodaeth Bellach: <https://www.tnlcommunityfund.org.uk/funding/programmes/climate-action-fund-energy>

Sefydliad McCarthy Stone – Cymorth Mannau Cynnes y Gaeaf

Manylion: Mae rhaglen Grant Cymorth Mannau Cynnes y Gaeaf yn cynorthwyo sefydliadau a arweinir gan y gymuned ar lawr gwlad yn y DU i ddarparu hybiau cynnes i bobl hŷn gymdeithasu ynddynt yn ystod y tywydd oer yn ystod yr argyfwng costau byw

Pwy sy'n gallu gwneud cais: Gall sefydliadau cymunedol â chyfansoddiad llawr gwlad, elusennau a grwpiau nid-er-elw eraill yn y DU wneud cais. Rhaid i grwpiau fod yn annibynnol a bod â chyfrif banc yn enw'r sefydliad.

Rhoddir blaenoriaeth i sefydliadau ag incwm blynyddol o lai na £100,000 a llai na chwe mis o arian wrth gefn am ddim.

Ar gyfer beth mae'r cais: Mae'r grant yn cefnogi costau'r prosiect, megis clybiau cinio, boreau coffi neu gaffis cof.

Gwybodaeth Bellach: <https://mccarthystonefoundation.org/our-grant-programmes/>